

Albert Heaney  
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol  
Deputy Director General  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf.:/Our ref.:

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru  
Mario Kreft - Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru  
Mary Wimbury - Prif Weithredwr Fforwm Gofal Cymru

cc. Darparwyr Gofal Cymdeithasol

1 Mai 2020

Annwyl gydweithwyr,

### Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU (Ffyrlo) a gofal cymdeithasol

Fel y gwyddom i gyd, mae Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU, neu ffyrlo, wedi'i sefydlu i helpu i sicrhau bod swyddi'n cael eu diogelu yn ystod cyfnod yr argyfwng hwn. Fodd bynnag, gan fod y sefyllfa'n newid yn gyflym, mae'r canllawiau ar gyfer y cynllun hwn wedi'u diwygio nifer o weithiau ac mae rhywfaint o ddryswch wedi codi o ran a yw'r cynllun yn berthnasol i ofal cymdeithasol.

Gan weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU gallwn gadarnhau bod pob sefydliad yn y DU sydd â chynllun PAYE ar 28 Chwefror yn gallu defnyddio'r cynllun cadw swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, waeth beth yw eu statws fel sefydliadau preifat neu sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod pob cyflogwr yn y sector gofal yn gallu defnyddio'r cynllun lle bo hynny'n briodol.

Mae gwasanaethau gofal yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r ymateb i Covid-19, ac felly rydym yn disgwyl i gyflogwyr gadw mwyafrif helaeth eu staff yn gweithio i gynnal y gwasanaethau hyn. Dyma pam mae canllawiau cyhoeddus Llywodraeth y DU ar gyfer y cynllun yn nodi bod "...*disgwyl i gwmnïau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus barhau i gyflogi staff...*"

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r "*disgwyliad*" hwn yn atal cyflogwyr yn y sector gofal rhag rhoi staff ar ffyrlo yn gyfan gwbl. Yn hytrach, mae'n pennu egwyddor y disgwylir i ffyrlo fod yn **eithriad** yn hytrach na'r rheol yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'n hanfodol, lle mae gweithwyr gofal ar gael i weithio, eu bod yn parhau i wneud hynny i helpu i gefnogi'r ymateb i Covid-19. Serch hynny, mae Trysorlys Ei Mawrhydi (HMT) yn cydnabod bod yna amgylchiadau lle y byddai'n briodol i gyflogwr yn y sector gofal roi gweithiwr ar ffyrlo. Mae cydweithwyr Llywodraeth y DU wedi darparu'r rhestr ganlynol fel enghraifft enghraifft o ble y byddai'n briodol, *ond nid yw o reidrwydd yn gynhwysfawr*:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. Lle y bydd mesurau'r Llywodraeth i ymateb i Covid-19 wedi arwain at orfod lleihau rhai rolau yn y sector gofal neu ddod i ben, a lle na ellir cyflawni'r rôl honno gartref.

Cyn rhoi gweithwyr ar ffyrlo, dylai sefydliadau ystyried yn gyntaf a ellir adleoli gweithwyr, gan gynnwys mewn sefydliadau cyfagos. Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr, ond mae'n rhoi enghraifft o rai gwasanaethau a allai orfod dod i ben neu gael eu lleihau o ganlyniad i fesurau cadw pellter cymdeithasol:

- cynlluniau trafndiaeth (noder nad yw canllawiau'r Llywodraeth yn gwahardd y rhain rhag parhau i weithredu, ond gall y galw amdanynt leihau)
  - gweithwyr siopau elusennol
  - staff canolfannau dydd
2. Lle y bydd y GIG wedi cysylltu â rhai o'r gweithlu gofal i ddweud y dylent fod yn "gwarchod" am gyfnod o 12 wythnos. Nid yw'r gweithwyr hyn yn gallu parhau i weithio yn y ffordd arferol. Gallai cyflogwr benderfynu cadw'r gweithwyr hyn ar gyflog llawn heb ddefnyddio'r cynllun Cadw Swyddi dros gyfnod y Coronafeirws, ond mae'r Cynllun Cadw Swyddi ar gael hefyd os yw cyflogwyr yn dewis ei ddefnyddio at y diben hwn.
  3. Efallai y bydd pobl hefyd nad ydynt yn gwarchod, ac y mae angen eu rolau o hyd yn ystod yr ymateb i Covid-19, ond sy'n gorfod peidio â gweithio am resymau eraill.

Er enghraifft, oherwydd ei bod yn hanfodol iddynt gymryd amser o'r gwaith i gefnogi unigolyn agored i niwed sy'n gorfod gwarchod. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai cyflogwyr arddel ymgymryd agwedd pragmataidd wrth drafod gyda gweithwyr. Mae canllawiau ar warchod yn golygu nad yw aelodau aelwyd unigolyn sy'n cael eu gwarchod yn gorfod gwarchod eu hunain, felly ni fyddai angen o reidrwydd rhoi aelod o'r cartref ar ffyrlo yn yr achos hwn. Fodd bynnag, dylai cyflogwyr gydnabod gwahanol amgylchiadau gweithwyr, ac y gallai fod angen i rai aros gartref i amddiffyn llesiant perthynas ac felly mae rhoi'r gweithwyr hyn ar ffyrlo yn opsiwn.

Unwaith eto, **y disgwyl yw mai achosion eithriadol yw'r rhain**, ac ar y cyfan mae'n hanfodol bod cyflogwyr yn cadw gweithwyr gofal ar gael ar gyfer gwaith. Mae'n bwysig hefyd nad yw cyflogwyr yn rhoi staff sy'n hunan-ynysu ar ffyrlo, naill ai oherwydd bod ganddynt symptomau Covid-19 (am saith niwrnod) neu eu bod yn byw gyda rhywun â symptomau (am 14 diwrnod). Y rheswm dros hyn yw y bydd absenoldeb yn yr achosion hyn fel arfer yn sylweddol is na'r cyfnod y byddai gweithiwr yn cael ei roi ar ffyrlo (o leiaf tair wythnos).

### **Cyfarwyddyd Trysorlys EM a'i ryngweithiad â Thâl Salwch Statudol**

Mae rhai rhanddeiliaid wedi codi mater gyda'r dehongliad o gyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi i Gylid a Thollau EM (CThEM) ar y Cynllun Cadw Swyddi dros gyfnod y Coronafeirws. Mae'r isod yn nodi'r sefyllfa ar y mater hwn, fel y cytunwyd gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi:

- Bydd CThEM yn gweithredu bob amser yn unol â Chyfarwyddyd Trysorlys EM.
- Mae dehongliad CThEM o'r Cyfarwyddyd wedi'i nodi yn ei ganllawiau cyhoeddedig. Disgwyliad CThEM yw y dylai cwsmeriaid ystyried y canllawiau yn y lle cyntaf wrth geisio deall gweithrediad y cynllun a dehongliad CThEM o'r Cyfarwyddyd.

- Dehongliad CThEM o'r Cyfarwyddyd yw nad yw'n atal rhywun rhag cael ei roi ar ffyrlo os yw ar Dâl Salwch Statudol neu'n atebol am Dâl Salwch Statudol, gan gynnwys a ydyn nhw'n dilyn mesurau gwarchod yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth i chi.

Yn gywir

**ALBERT HEANEY**  
**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol**